

## TRIBIWNLYS ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG CYMRU

### (SENTW)

#### NODIADAU O'R CYFARFODYDD GRWPIAU DEFNYDDWYR CANLYNOL:

Gogledd Cymru	Dydd Llun 16 Hydref 2017 am 10:00am	Gwesty'r Cei, Conwy
De Cymru	Dydd Mercher 18 Hydref 2017 am 10:00am	Gwesty Newhouse, Caerdydd

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Lywydd y Tribiwnlys.

#### Diweddariad Cyfreithiol

Cyflwynwyd Meleri Tudur i'r grŵp gan Lywydd y Tribiwnlys. Mae Meleri Tudur yn Ddirprwy Lywydd Siambr yn Lloegr ond mae hi hefyd yn Gadeirydd Tribiwnlys ar gyfer Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, a hi oedd yn rhoi'r diweddariad cyfreithiol ar gyfer y cyfarfod hwn.

Diweddariad Cyfreithiol – Rhoddodd Meleri Tudur gyflwyniad cynhwysfawr ynghylch y rhannau o'r Datganiad y mae'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yn ymdrin â hwy. Gan fod Cymru'n wynebu newidiadau sylweddol o ran deddfwriaeth mae hwn yn gyfle i fynd yn ôl at yr hanfodion ac edrych ar y fframwaith statudol. Pan ddaw'r bil newydd bydd angen inni holi ein hunain beth yw'r cwestiynau cyfreithiol. Dywedodd Mrs Tudur hefyd, er bod gan y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol eu polisïau a'u canllawiau eu hunain, mae'r Tribiwnlys yn gweithio drwy roi'r gyfraith ar waith. Mae'r cwestiynau yr ydym yn eu gofyn yn deillio o'r ddeddfwriaeth. Dyma gyfle i edrych ar yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ei ddweud a'r hyn y mae'r Uwch Dribiwnlys wedi'i ddweud yn ddiweddar, oherwydd yn Lloegr mae gan y Ddeddf Plant a Theuluoedd ddarpariaethau sydd wedi'u torri a'u gludo o Ddeddf Addysg 1996. Ymddengys mai'r Cod Ymarfer fydd y gwahaniaeth mwyaf yng Nghymru gan mai canllawiau a geir yn y Cod ar hyn o bryd, ond ymddengys y bydd yn dod yn orfodol.

Ymdriniodd y cyflwyniad â'r fframwaith cyfreithiol o fewn y broses o wneud Datganiad yn y meysydd hynny lle mae gan y Tribiwnlys awdurdodaeth. Gwrthod Cynnal Asesiad, Gwrthod Gwneud Datganiad, Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4 ac ati.

Cafwyd llawer o drafodaeth o fewn y grŵp wedi'r cyflwyniad, ac roedd y prif gwestiynau yn ymwneud â chostau:

Awdurdodau lleol – ddim yn eglur beth mae'r Gyfraith yn caniatáu ei gynnwys wrth bennu costau lleoliad, mae angen mwy o eglurder.

Cafwyd trafodaeth ynghylch safbwyntiau plant, capasiti, a hawliau rhieni, ar gyfer eu plentyn mewn addysg bellach.

Mae'n hanfodol i'r Tribiwnlys, wrth wneud ei benderfyniad, gael safbwyntiau'r plentyn.

Mae copi o'r cyflwyniad wedi'i atodi. – Atodiad 1

## **Trawsnewid ADY**

Hysbysodd Llywydd y Tribiwnlys y grŵp na allai ein Cadeirydd Tribiwnlys Jaqueline Blackmore gyflwyno'r sgwrs fel y bwriadwyd oherwydd problemau yn ymwneud â'r rhyngrwyd.

Cawsom wybod yn hwyr iawn brynhawn lau diwethaf fod Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad wedi cytuno i dros 100 o ddiwygiadau, gan gynnwys newidiadau i'r ddarpariaeth o ran y Gymraeg, dyletswyddau ar Gyrff GIG a phwerau'r Tribiwnlys. Nid ydynt wedi dweud wrthym beth ydynt. Bydd yn rhaid i ni aros i weld y fersiwn diwygiedig o'r Bil er mwyn gweld beth yw'r diwygiadau. Bwriadwn gyflwyno Papur ynghylch y Bil i'r Cyfarfodydd Grwpiau Defnyddwyr y flwyddyn nesaf pan fyddwn yn gallu gweld sut beth fydd y darn terfynol o ddeddfwriaeth, a chan obeithio y bydd y rheoliadau drafft a'r drafft diweddaraf o'r Cod Ymarfer ar gael hefyd.

Soniodd Llywydd y Tribiwnlys am rai o fanteision y Bil, y Bil fel y mae ar hyn o bryd a'r ffaith fod gwarchodaethau statudol yn cael eu hehangu er mwyn cynnwys unrhyw blentyn neu berson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol ledled yr ystod oedran o 0 i 25 a ledled lleoliadau meithrin a gynhelir, ysgolion ac addysg bellach. Yn ogystal, mae'r dyletswyddau tuag at rai o'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael eu hegluro i raddau h.y. Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhai sydd dan gadwad.

Mantais arall yw'r cynnig i gryfhau rôl y Cydlynnydd ADY (ALNCO) a'r Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO). Croesewir cyflwyno hawliau statudol yn ymwneud â mynediad i'r Gymraeg.

Mae Llywydd y Tribiwnlys yn cytuno bod sawl asiantaeth yn gweithio ynghyd yn syniad gwyach, ond nid yw'n gallu gweld o ddfrif sut y bydd yn gweithio. Mae rhai awdurdodau lleol wedi dweud wrth weddill y grŵp bod ganddynt eisoes gyfarfodydd amlasiantaeth sy'n ymddangos fel petaent yn gweithio'n arbennig o dda.

## **Ystyriaethau**

Mae'r manteision y tynnwyd sylw atynt, fodd bynnag, yn esgor ar ystyriaethau ynghylch capasiti, adnoddau a hyfforddiant y bu i'r Tribiwnlys eu crybwyll yn ei sylwadau i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Roedd rhai o'r meysydd eraill y bu i'r Tribiwnlys eu crybwyll yn ei gyflwyniadau yn ymwneud â'r materion canlynol:

Pwysigrwydd canolog sefydlu system sy'n darparu dull effeithiol i sawl asiantaeth weithio ynghyd ac sy'n cyflwyno darpariaeth sy'n gysylltiedig â hyn, a phryder fod

gan y Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio, gryn ffordd i fynd cyn darparu fframwaith statudol effeithiol i gyflawni hyn.

Yn hyn o beth, ym marn y Tribiwnlys mae angen ystyriaeth bellach o rolau a chyfraniadau'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn enwedig.

Nodwyd hefyd fod ystyriaethau ynghylch prosesau gwneud penderfyniadau lle ceir anghydfod yn peri pryder. Os bydd pob safbwynt yn cael ei ystyried ac yn cael gwerth cyfartal dan a. 6 y Bil (ac eithrio rhieni pobl ifanc nad oes ganddynt hawl statudol i leisio barn) yna mae angen eglurder ynghylch sut y bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud ac ar ba sail.

Yn gysylltiedig â hyn, sut yn enwedig y gwneir penderfyniadau lleoli lle ceir anghydfod.

Ar hyn o bryd ni cheir unrhyw eglurder yn y Bil ynghylch pa brosesau gwneud penderfyniadau a ddefnyddir i ganfod lleoliadau meithrin ac AB.

Hefyd, o ran lleoliadau ysgol, mae angen i'r mecanwaith a gynigir fod yn llawer mwy eglur ac mae angen rhoi rhagor o ystyriaeth i sut y bydd y mecanwaith a gynigir yn gweithio'n effeithiol.

Mae hyn yn arbennig o wir gan yr ymddengys fod hawl rhieni i ddewis dan Atodlen 27 Deddf Addysg 1996 yn cael ei dileu, ond bod y ddyletswydd gyffredinol i weithredu dymuniadau rhieni dan a. 9 y Ddeddf Addysg yn parhau, a byddwn yn tybio y bydd hawl gyffredinol rhieni i fynegi dewis o ysgol dan a. 86 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn berthnasol i'r holl blant â chynlluniau datblygu unigol.

Yn gysylltiedig â'r holl faterion uchod, a phan roddir eglurder ar y materion hyn, bydd angen ailystyried pwerau'r Tribiwnlys hefyd.

Gellid bod wedi ymdrin â rhywfaint o'r uchod yn y diwygiadau a gadarnhawyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ddiweddar!

Os na wneir hyn, bydd angen gwaith sylweddol ar y Cod newydd a'r rheoliadau ategol!!!

Yn olaf, mae'r modd yr ymddengys fod yr ansicrwydd presennol yn effeithio ar ansawdd Datganiadau a'r ddarpariaeth yn gyffredinol yn bryder cyffredinol gan y Tribiwnlys, ac mae'r achosion sy'n dod gerbron y Tribiwnlys ar hyn o bryd yn dyst i hyn.

Mae rhai o'r Datganiadau yr ydym yn eu gweld wedi dyddio'n arw, heb fanylder o gwbl ynghylch y ddarpariaeth a cheir ystyriaethau amlwg o ran aneffeithiolrwydd y gwaith amlasiantaeth.

Cafwyd awgrym mai'r ffaith bod y trefniant ariannu wedi newid sy'n gyfrifol, gan fod yr ALI yn rhoi cyllid Addysg dynodedig i ysgolion ei wario yn ôl yr angen. Nid yw'r datganiadau yn ddigon penodol, nid yw'r cymorth yn cael ei feintioli ac ati.

Ceir llawer o bryder ymhlith y grŵp ynghylch ymwneud lechyd â'r Bil newydd. Ceir llawer o achosion pan fydd yr Awdurdod lechyd yn cael ei gynnwys o safbwynt

addysg, ond bydd angen i'r Awdurdodau Lleol dalu amdano. Cafwyd sylw gan y grŵp fod rhai rhieni mewn rhai ardaloedd yn credu nad yw Datganiadau Statudol yn bodoli mwyach.

Gofynnodd Llywydd y Tribiwnlys i'r grŵp am eu cyfraniad a'u barn ynghylch y Manteision a'r Pryderon am y Bil. Gellir ymgorffori unrhyw adborth mewn cyflwyniad llawn y flwyddyn nesaf, os na fydd y Bil yn ymdrin â'r pryderon erbyn hynny. Anfonwch hwy atom a byddwn yn rhoi cymaint o lwyfan â phosibl iddynt.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y pwnc hwn o fewn y grŵp.

### **Diweddariad Ystadegol y Tribiwnlys - 2016 - 2017**

Rhoddodd Kelly Helliwell y diweddariad ystadegol yng nghyfarfod y Gogledd.

Rhoddodd Diane Pritchard y diweddariad ystadegol yng nghyfarfod y De.

Yn 2016 – 17 gwelwyd cynnydd sylweddol yn yr Apeliadau a Dderbyniwyd a'r Apeliadau a Gofrestrwyd, gan barhau â'r cynnydd a welwyd dros y 4 blynedd flaenorol:

- Yn 2012 – 13 derbyniasom 81 Apêl, a chafodd 73 ohonynt eu cofrestru.
- Yn 2013 – 14 derbyniasom 92 Apêl, a chafodd 78 ohonynt eu cofrestru.
- Yn 2014 – 15 derbyniasom 111 Apêl, a chafodd 101 ohonynt eu cofrestru.
- Yn 2015 – 16 derbyniasom 118 Apêl, a chafodd 108 ohonynt eu cofrestru.
- Yn 2016 – 17 derbyniasom 153 Apêl, a chafodd 144 ohonynt eu cofrestru (mae 25 o'r rheini wedi'u cario ymlaen i'r flwyddyn gyfredol, 17 – 18).

Mae ein 5 mlynedd diwethaf o ddata yn dangos bod hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn gymharol ddigyfnewid, nid ymddengys fod unrhyw gwmp na chynnydd amlwg yn nifer yr hawliadau yr ydym wedi'u derbyn a nifer yr hawliadau sydd wedi'u cofrestru.

Yn 2016 – 17 cawsom 11 o Hawliadau, a chafodd 6 ohonynt eu cofrestru. Cafodd 1 ei gadarnhau ac mae 5 wedi'u cario ymlaen i 17-18.

O blith yr apeliadau a gofrestrwyd, cawsom: 84 cyn gwneud datganiad (Gwrthod Cynnal Aseiad, Gwrthod Ailasesu a Gwrthod Gwneud Datganiad), a 58 apêl yn erbyn cynnwys datganiad. Roedd 2 arall yn ymwneud â pheidio â chynnal y datganiad.

Os ystyriwn y 29 o apeliadau a gariwyd ymlaen gennym o'r flwyddyn 15-16 i'r flwyddyn 16-17 rydym wedi ymdrin â chyfanswm o 170 o apeliadau yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Cawsom 67 o apeliadau lle na ddadleuodd yr Awdurdod Lleol yn eu herbyn, tynnwyd 29 apêl yn ôl, cafodd 15 eu cadarnhau yn llawn, cafodd 6 eu cadarnhau yn rhannol, cafodd 12 eu gwrthod/dileu, cyhoeddwyd 18 o Orchmynion Cydsynio, cafodd 23 eu cario ymlaen i'r flwyddyn 17-18 ac ni chafodd 11 eu cofrestru.

Cawsom 33 Apêl y penderfynwyd arnynt mewn gwrandawriad, a dyma'r canlyniadau: 15 wedi eu cadarnhau'n llawn, 6 wedi eu cadarnhau'n rhannol a 12 wedi'u

gwrthod/dileu. Mae'r sleid yn rhoi manylion ynghylch y mathau o apeliadau a'r canlyniadau.

O'r 23 Awdurdod Lleol yng Nghymru, cafodd pob un ar wahân i Ynys Môn apeliadau wedi'u cofrestru yn eu herbyn y llynedd. Yr ALLau â'r nifer uchaf o apeliadau eleni oedd Abertawe gyda 33 apêl, ac yna RhCT gyda 24 a Chonwy gydag 16, roedd gan Gasnewydd 13, Pen-y-bont ar Ogwr 12, yna Bro Morgannwg 11. Roedd gan Gaerdydd 9 apêl. Roedd gan Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin 7 apêl yr un, roedd gan Bowys a Cheredigion 5, roedd gan Sir Ddinbych a Chastell-nedd Port Talbot 4, roedd gan Sir Fynwy, Gwynedd, Torfaen, Wrecsam a Chaerffili oll 3, roedd gan Sir y Fflint 2 ac yn olaf roedd gan Flaenau Gwent a Merthyr Tudful 1 apêl.

Dengys ein 5 mlynedd diwethaf o ddata fod data Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn parhau yn gymharol ddigyfnewid. Nid ymddengys fod yna unrhyw gwmp na chynnydd amlwg yn nifer yr hawliadau yr ydym yn eu derbyn a nifer yr hawliadau sy'n cael eu cofrestru.

Yn 2016–17 cawsom 11 hawliad, a chafodd 6 ohonynt eu cofrestru; cafodd 1 ei gadarnhau ac mae 5 wedi cael eu cario ymlaen. Roedd y 4 arall y tu hwnt i awdurdodaeth y Tribiwnlys.

Yn hanesyddol, mae hawliadau yn llawer mwy cymhleth ac yn aml iawn mae angen mwy na gwrandawriad diwrnod o hyd ar eu cyfer.

O blith y 170 o apeliadau y bu inni ymdrin â hwy eleni, erys yn wir mai bechgyn yw testun 2/3 o'r apeliadau. Eleni, roedd 124 o apeliadau ynghylch AAA bechgyn o'u cymharu â 46 ar gyfer merched. Mae hyn yn cymharu â 95 ar gyfer bechgyn a 43 ar gyfer merched yn y flwyddyn 2015-16.

O'r mathau o AAA a gofnodwyd gennym, plant ag anhwylder sbectrw m awtistiaeth oedd â'r nifer uchaf o apeliadau, sef 65, o blith y 170, roedd 18 o apeliadau yn blant a chanddynt fathau eraill o AAA, e.e. anawsterau dysgu penodol, nam ar y clyw ac ati. Ni wnaeth 54 ddatgan ac roedd 16 yn anhysbys.

Ar gyfer grwpiau oedran y plant, roedd gennym 4 ar gyfer oed meithrin, 15 ar gyfer oed pontio i'r cynradd, 105 ar gyfer oedran ysgol gynradd, 3 ar gyfer pontio i'r uwchradd ac, yn olaf, 43 ar gyfer oedran uwchradd.

### **Crynodeb**

Derbyniwyd 153 Apêl, Derbyniwyd 11 Hawliad, Cafodd 144 o Apeliadau eu cofrestru, cafodd 6 Hawliad eu cofrestru

Rydym wedi cario 26 o apeliadau ymlaen o'r llynedd. Derbyniwyd 13 Apêl hyd at ddiwedd yr ail wythnos yn Hydref. 5 – Abertawe, 2 – Sir y Fflint, 1 yr un ar gyfer Sir Benfro, Gwynedd, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent a Sir Ddinbych

Cyflwyniad wedi'i atodi – Atodiad 2

**Diweddariad ar y Tribiwnlys – Rhiannon Walker**

Rhoddodd Llywydd y Tribiwnlys wybod i'r grŵp ei bod wedi cwrdd â'r Gweinidog Dysgu Gydol Oes newydd yn gynnar ym mis Ebrill 2017. Buont yn trafod ystadegau'r Tribiwnlys ar gyfer y flwyddyn flaenorol, ac yn enwedig felly y llwyth achosion, gan ei fod yn cynyddu'n flynyddol. Buont hefyd yn trafod pwnc awdurdodau lleol yn peidio â chydymffurfio â Gorchmynion Tribiwnlys a'r broses o eiddo Llywodraeth Cymru y mae rhieni'n gorfod mynd drwyddi pan fydd hyn yn digwydd, gan ei bod yn broses hirfaith, costus a llawn straen i rieni sydd newydd dreulio cyfnod hir o amser ac, o bosibl, llawer o arian yn dod â'u hapêl gerbron y Tribiwnlys yn y lle cyntaf. Awgrymodd Llywydd y Tribiwnlys drefniant newydd amgen i fynd i'r afael â hyn, drwy ganiatáu i'r rhieni ddychwelyd i'r Tribiwnlys ac i'r Tribiwnlys wedyn ddarparu'r gwaith papur i'r person a enwebwyd yn Llywodraeth Cymru, gan fod y cyfan gennym ar ffeil beth bynnag. Ymddangosai fel pe bai gan y Gweinidog gryn ddiddordeb yn yr awgrym hwn, ond ni chytunwyd ar unrhyw beth ar hyn o bryd.

Buont hefyd yn trafod Trawsnewid ADY a'r ystyriaethau o ran hawliau rhieni ôl-16. Ymddengys ar y foment y bydd hawl y person ifanc yn cael ei hystyried hyd yn oed os nad yw'r rhieni yn cytuno â hyn. Gallai hyn, o bosibl, greu problemau rhwng rhieni a'u plant. Efallai y bydd yna hefyd anawsterau i'w datrys o hyd ynghylch capasiti.

Cafwyd trafodaeth hir ar y pwyntiau hyn.

Gofynnodd Llywydd y Tribiwnlys i unrhyw un sydd ag unrhyw sylwadau neu adborth am yr ADY a'r diwygiadau eu hanfon i'r Tribiwnlys er mwyn i Lywydd y Tribiwnlys gyflwyno'r pryderon mewn cyfarfodydd ymgynghori.

Yn ystod Cyfarfod Grŵp Defnyddwyr De Cymru cyhoeddwyd bod cam 3 wedi cychwyn yn swyddogol.

Yng nghyfarfod y Grŵp Defnyddwyr y flwyddyn nesaf bydd y Llywydd yn paratoi papur ynghylch y Bil.

Rhoddodd Llywydd y Tribiwnlys wybod i'r Grŵp y bydd Bil Cymru yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2017, ac yn ei sgil daw swydd newydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Rhaid i'r swydd hon gael ei llenwi gan Farnwr o'r Uchel Lys.

Dywedodd Llywydd y Tribiwnlys wrth y grŵp am farwolaeth annhymig ac anffodus Llywydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl. Mae hyn wedi esgor ar drafodaeth â Llywodraeth Cymru ynghylch yr angen i bob Tribiwnlys gael Dirprwy Lywydd. Roedd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn ffodus yn hyn o beth gan fod ganddynt Ddirprwy Lywydd mewn lle yn barod i oruchwylio'r llwyth gwaith a chaniatáu i'r Tribiwnlys barhau fel y bo'n briodol. Mae hyn yn parhau i gael ei drafod ac ni wnaed unrhyw benderfyniadau hyd yma.

Rhoddodd Llywydd y Tribiwnlys wybod i'r grŵp ei bod, yn ddiweddar, wedi mynychu'r cyfarfod blynyddol rhwng awdurdodaethau gyda Llywyddion Tribiwnlysoedd Addysg yr Alban a Lloegr. Nid oedd lwerddon yn bresennol, a hynny am yr ail flwyddyn. Dywedodd y Llywydd wrthym fod Lloegr a'r Alban ill dwy wedi gweld cynnydd sylweddol yn eu llwyth achosion, gyda Lloegr yn ymdrin â 5,000 o apeliadau yn y 12 mis diwethaf. Roedd gan yr Alban ffigurau tebyg i Gymru ac mae ganddynt 12 cynullydd (Cadeirydd) i ymdrin â'u holl apeliadau, a bydd y nifer yn codi

i 16. Ar hyn o bryd mae gan Gymru 4 Cadeirydd a 10 Aelod Lleyg ac mae gennym fymryn yn fwy o achosion. Rydym yn cynnal cystadleuaeth ar hyn o bryd i benodi 2 Gadeirydd arall gan fod arnom eisiau paratoi ar gyfer y cynnydd posibl mewn apeliadau pan ddaw'r Bil newydd i rym; gwyddom fod yr ystod oedran wedi cynyddu i 25 oed felly mae'n debygol y gwelwn gynnydd yn nifer yr Apeliadau. Mae Lloegr wedi gweld cynnydd o 25% yn eu hapeliadau ers i'w deddfwriaeth newydd hwy ddod i rym. Bydd gennym hefyd 2 Gadeirydd wrth gefn. Crybwyllodd Llywydd y Tribiwnlys hefyd fod gan yr Alban fwy o bwerau i fonitro eu penderfyniadau.

Mae'r Alban a Lloegr hefyd yn cael anawsterau gyda maint bwndeli. Mae Lloegr wedi cyflwyno mesurau newydd i ymdrin â'r broblem hon. Yn anffodus, nid ydym wedi cael amser i ganolbwyntio ar hyn eto, ond gobeithiwn roi mesurau ar waith o fewn y 12 mis nesaf i ymdrin â'r broblem gynyddol hon. Dyma rai o'r anawsterau yr ydym yn eu cael:

- Dyblygu dogfennau: ymddengys fod sawl copi o'r un dogfennau mewn bwndeli sy'n dod gan yr awdurdodau lleol. Rydym yn disgwyl derbyn rhywfaint o'r un dogfennau gan yr apelydd a'r awdurdod lleol, ond nid sawl copi o'r un dogfennau gan yr awdurdod lleol;
- Gwybodaeth sydd wedi dyddio, gan dderbyn adroddiadau a ysgrifennwyd dros 5 mlynedd yn ôl yn aml, ac ati;
- Dogfennau nad oes modd eu darllen, copiâu gwael; ac
- Mewn rhai achosion rydym wedi derbyn ein cyhoeddiadau ein hunain (copïau o lyfrynnau canllawiau) yn rhan o ddogfennaeth ategol datganiadau achos gan awdurdodau lleol.

### **Pwynt Gweithredu – Llywydd y Tribiwnlys i drafod y mater hwn ag Aelodau'r Tribiwnlys yn y Gynhadledd Flynyddol ac ystyried opsiynau.**

Rhoddodd Llywydd y Tribiwnlys wybod i'r grŵp hefyd fod Safonau'r Gymraeg yn ein cadw'n brysur; rydym bron iawn wedi cytuno arnynt oll gyda Chomisiynydd y Gymraeg, bu'n rhaid inni wrthwynebu 1 neu 2 o'r Safonau oedd yn cael eu gorfodi arnom. Roedd y Tribiwnlys eisoes yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r Safonau beth bynnag.

Rhoddodd Llywydd y Tribiwnlys wybod i'r Grŵp y byddwn yn cynnal cynllun peilot ar apeliadau Gwrthod Asesu. Mae'r Llywydd eisiau i'r holl apeliadau Gwrthod Asesu gael eu hystyried mewn gwrandawliadau papur os oes modd. Dyna pam mae'n holl bwysig i'r partïon sicrhau eu bod yn anfon gwybodaeth briodol a'r wybodaeth ddiweddaraf atom wrth gyflwyno datganiadau achos. Byddwn yn cynnal y cynllun peilot o fis Rhagfyr 2017 hyd fis Mai 2018, a'r adeg honno byddwn yn gofyn am adborth gan bobl sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun peilot i helpu i sicrhau ei fod yn llwyddiant. Os bydd gofyn am unrhyw newidiadau, byddwn yn eu cyflwyno. Yn rhan o'r newid, bydd yn rhaid i rieni dicio blwch ar y ffurflen gais Apelio i optio allan o'r gwrandawliad papur os oes arnynt eisiau gwrandawliad llafar. Bydd Panel y Tribiwnlys yn dal i ystyried y gwaith papur Apelio a phenderfynu a yw gwrandawliad llafar yn angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniad.

Gofynnwn am adborth yn ystod y cyfnod hwn fel y gallwn fireinio'r broses a sicrhau ein bod yn cael popeth yn iawn.

Gofynnwyd i Lywydd y Tribiwnlys "Sut neu bwy sy'n penderfynu a yw apêl yn cael ei gwrthod neu ei dileu?"

Atebodd Llywydd y Tribiwnlys drwy ddweud y gall yr ALI wneud cais i'r Llywydd i Apêl gael ei dileu neu ei gwrthod os teimlant fod gwybodaeth anghywir wedi cael ei chyflwyno i'r Tribiwnlys. Os credant na ddylai Apêl fod wedi'i chofrestru, dylent ddarparu eu rhesymau i egluro pam. Bydd y Llywydd yn ystyried yr holl sylwadau ac yn gwneud penderfyniad.

Gofynnwyd inni a oedd unrhyw blant wedi dod ag apeliadau gerbron y Tribiwnlys hwn eleni.

Nid oeddem wedi cael unrhyw apeliadau gan blant yn ystod y flwyddyn hon o fusnes y Tribiwnlys.

Rhoddodd Llywydd y Tribiwnlys wybod i'r grŵp bod llawer o Gyfarwyddiadau wedi'u hanwybyddu gan bartïon yn ystod y flwyddyn hon. Esboniodd y Llywydd fod Cyfarwyddiadau yn cael eu cyhoeddi er mwyn cynorthwyo'r panel i reoli'r achos ac i gynorthwyo'r partïon i sicrhau bod gan y panel yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen. Dywedodd y Llywydd wrth y Grŵp hefyd, os ydynt mewn sefyllfa lle nad ydynt yn deall unrhyw Gyfarwyddiadau sydd wedi'u rhoi iddynt, dylent gysylltu â'r Tribiwnlys i ofyn a ellir eu hegluro, ond ni ddylent eu hanwybyddu. Os na allant gydymffurfio â hwy o fewn yr amserlen yna dylent ysgrifennu at y Tribiwnlys yn gofyn am ragor amser, gan egluro'r rhesymau pam na allant gydymffurfio â'r amserlen. Ystyrir pob cais. Dywedodd Llywydd y Tribiwnlys wrth y grŵp fod perygl y bydd partïon yn cael eu heithrio o'r gwrandawriad os na chydymffurfir â Chyfarwyddiadau.

### **Pwynt Gweithredu – Llywydd y Tribiwnlys i drafod â Chadeiryddion yn y Gynhadledd Flynyddol.**

Rhoddodd Llywydd y Tribiwnlys wybod i'r grŵp hefyd ein bod yn cael anawsterau gwirioneddol â phartïon yn cynnig yr argaeledd lleiaf posibl ar gyfer gwrandawriadau, gyda rhai partïon yn aml iawn ddim ond yn rhoi 1 diwrnod mewn cyfnod o 2 fis. Dylech gynnig cymaint o argaeledd â phosibl, fel y gallwn drefnu gwrandawriadau ar adeg sy'n gyfleus i bawb.

Adroddwyd hefyd fod awdurdodau lleol yn cael anawsterau ag Egress.

Diolchodd Llywydd y Tribiwnlys i bawb am eu presenoldeb ac am gyfraniad hynod o werthfawr i'r trafodaethau.

Daeth y cyfarfod i ben.